# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD LLUN, 28 IONAWR 2013 am 2.00 o'r gloch | | MONDAY, 28 JANUARY, 2013 at 2.00pm |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**ANNIBYNNOL GWREIDDIOL/ORIGINAL INDEPENDENT**

W T Hughes, Eric Jones, Ieuan Williams (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), G O Jones, G W Roberts OBE a E Schofield

**LLAFUR/LABOUR**

R Dylan Jones

**LLAIS I FÔN**

S Williams (Cadeirydd/Chair)

**PLAID CYMRU/THE PARTY OF WALES**

Vaughan Hughes, W I Hughes a E G Davies

**HEB YMUNO/UNAFFILIATED**

H E Jones

**AELODAU CYFETHOLEDIG (GYDA PLEIDLAIS) PAN YN TRAFOD MATERIONYN YMWNEUD AG ADDYSG / CO-OPTED MEMBERS (WITH A RIGHT TO VOTE) WHEN DEALING WITH EDUCATIONAL MATTERS**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig / The Roman Catholic Church) a Parch./Rev. Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw aelod neu swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **YMGYNGHORIAD AR GYLLIDEB 2013/14** (Tudalennau 1 - 16)

Cyflwyno cynigion drafft cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer Cyllideb 2013/14.

**(Mae copi o ddogfen ymgynghori y Gyllideb ynghlwm – Eitem 2 ar y rhaglen)**

**(Gofynnir hefyd i'r Aelodau ddod gyda nhw i'r cyfarfod, copi o'r adroddiad a gyflwynwyd i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 7 Ionawr, 2013 mewn perthynas â'r cynigion cychwynnol ar gyfer Cyllideb 2013/14).**

# Ynys Môn

THE ISLE OF

# Anglesey

## Cwrdd â'r Heriau

### Ymgynghoriad ar y Gyllideb 2013/14




CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.gov.uk

cyngormon

@cyngormon

# CYNIGION CYLLIDEBOL/GWELLA CYCHWYNNOL Y PWYLLGOR GWAITH AR GYFER 2013/14

**Ymgynghori ar flaenoriaethau allweddol y Cyngor, strategaeth ariannol tymor canolig a chynigion cyllidebol ar gyfer 2013/14.**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ei flaenoriaethau allweddol, ei strategaeth ariannol ar gyfer y tair blynedd nesaf a chynigion cyllidebol ar gyfer 2013/14.

Mae'r ddogfen yma, fydd yn cael ei dosbarthu'n helaeth mewn ffurf electronig (copïau papur ar gael ar gais) yn ffurfio rhan o'r ymgynghoriad ynghyd â gweithdy Aelodau llawn a chyfres o gyfarfodydd hefo chydranddeiliaid i'w cynnal yn Ionawr a Chwefror 2013.

Rhoddwyd pwerau gweithredol yn ôl i'r Cyngor yn Hydref 2012, gyda llai o Gomisiynwyr Llywodraeth Cymru yn parhau i wasanaethu i fonitro'r cynnydd. Hon yw cyllideb olaf y weinyddiaeth bresennol, oherwydd gohiriwyd etholiadau Cyngor Sir 2012 am flwyddyn, hyd at fis Mai 2013.

## CYD-DESTUN

Y Cyngor yw'r cyflogwr mwyaf ar yr Ynys, gyda throsiant blynyddol o gwmpas £160m. Fel darparwr gwasanaethau allweddol, fel addysg, gwasanaethau cymdeithasol a datblygu cynaliadwy, mae ganddo rôl ac effaith fawr yn lleol, drwy gyflogi, ansawdd bywyd a darpariaeth uniongyrchol o wasanaethau.

Mae heriau pwysig o'n blaenau wrth i ni barhau i wireddu'r uchelgeisiau a osodir allan yng Nghynllun Corfforaethol 2012/15 a gytunwyd llynedd, gydag adnoddau sy'n lleihau. Ers Ebrill 2011, mae'r Cyngor wedi bod dan ymyrraeth Llywodraeth Cymru, gan ddychwelyd i reolaeth ddemocrataidd gyda mesurau ymyrraeth is yn Hydref 2012. Drwy gydol y cyfnod, nodwyd meysydd gwella gan y Comisiynwyr, y rheoleiddwyr a'r Cyngor ei hun. Yn ddiweddarach, mae Cynllun Trawsnewid newydd mwy uchelgeisiol, yn cael ei ddatblygu i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn Ionawr 2013, ac mae'r rhaglen waith yn cael ei blaenoriaethu drwy gyllideb 2013/14 a'r tu draw i hynny.

Yn arbennig, mae gwaith wedi cychwyn ar ddatblygu Strategaeth Effeithlonrwydd newydd ar gyfer trafodaeth gyda'r Cyngor newydd ar ôl Mai 2013, ochr yn ochr â Chynllun Corfforaethol newydd. Bydd cyfle pellach i gyflwyno sylwadau drwy broses ymgynghori ar wahân yn hwyr yn yr haf.

Gosodir allan yn y ddogfen hon flaenoriaethau corfforaethol a themâu gwella cyfredol y Cyngor, y strategaeth ariannol tymor canolig a chynigion cyllidebol ar gyfer 2013/14. Dylid ei darllen ochr yn ochr â'r Cynllun Integredig Sengl yr ymgynghorir arno ar hyn o bryd.

## BLAENORIAETHAU'R CYNGOR

Ymgynghorwyd ar nodau a blaenoriaethau strategol y Cyngor ac fe'u hamlinellwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2012/15. Maent yn disgyn i bump thema gwahanol, ond cysylltiedig. Y rhain yw:-

***Hyrwyddo a gwarchod buddiannau'r ynys, ei dinasyddion a'i chymunedau.***

I gyrraedd y nod yma, mae'r Cyngor eisiau creu Ynys Môn :-

- Sydd ag economi wledig sy'n ffyniannus a llewyrchus;
- Lle mae pobl yn cyrraedd eu llawn botensial;
- Lle mae pobl yn iach ac yn ddiogel;
- Lle mae pobl yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol;
- Lle mae pobl yn falch o'u Cyngor.

Bydd y Cynllun Trawsnewid, sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol ar gyfer gwella a datblygu yn 2013/14 a'r tu draw i hynny:-

- Gwelliannau mawr llywodraethu corfforaethol fel y gall yr ymyrraeth ddod i ben yn llwyr erbyn Mai 2013;
- Trawsnewid gwasanaethau oedolion;
- Parhau i wella'r gwasanaethau plant;
- Gwelliannau i addysg;
- Trawsnewid gwasanaethau hamdden;
- Rhaglen Ynys Ynni.

Mae ystyriaethau pwysig wrth osod blaenoriaethau'r Cyngor a chyllideb gynaliadwy gytbwys. Mae'r rhain yn cynnwys:-

**a) Heriau a chyfleoedd cymdeithasol/economaidd sy'n wynebu'r ynys**

Gall y cyhoeddiad diweddar ynghylch prynwr i Horizon Nuclear Power a'r posibilrwydd o orsaf niwclear newydd, olygu newidiadau sylweddol i'r economi a mewnfudo mawr. Gall y ddau fater hyn, ynghyd â buddsoddiadau posib mawr yn y meysydd ynni a thwristiaeth, ynghyd â dynodiad Ynys Môn fel Parth Menter gan Lywodraeth Cymru, greu cyfleoedd sylweddol i bobl a busnesau lleol. Fodd bynnag, daw pwysau ychwanegol o gyflwyno'r newidiadau diwygio lles, yn arbennig mewn ardaloedd o amddifadedd uchel, lle collwyd swyddi sylweddol a lle mae diweithdra yn parhau'n uchel.

**b) Tueddiadau poblogaeth a materion ffordd o fyw**

Dengys rhagamcanion poblogaeth Llywodraeth Cymru fod gan Ynys Môn boblogaeth sy'n gynyddol heneiddio. Rhydd hyn bwysau ychwanegol ar faterion iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae galwadau cynyddol gymhleth o ran plant ac oedolion, gan wneud y ffordd gyfredol o ddarparu gwasanaethau yn anghynaliadwy i'r dyfodol.

Mae'r angen i ddarparu gofal yn agosach i'r cartref ac i gynnal annibyniaeth am gyfnodau hwy, a hyrwyddo ffordd o fyw iach i bob oedran o'r pwys mwyaf. Mae hyn yn galw am ffordd llawer mwy cyfannol o ddarparu gwasanaethau, gan nodi anghenion yr unigolion yn hytrach na gweithio fel gwasanaethau ar wahân. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i drawsnewid ei wasanaethau mewn ymateb i'r her yma a, thrwy gyllideb eleni, mae wedi blaenoriaethu trawsnewid addysg, gofal cymdeithasol a hamdden.

**c) Perfformiad y Cyngor**

Yn hanesyddol mae gwasanaethau'r Cyngor wedi perfformio'n dda. Dangosir isod grynodeb o berfformiad diweddar.


**Sut rydym yn ei wneud?**


Roedd 2011/12 yn flwyddyn o newidiadau sylweddol i'r Cyngor, gyda'n perfformiad yn cael ei sgriwtineiddio'n fanwl. O ran ein dangosyddion perfformiad (y ffordd rydym yn mesur llwyddiant), roedd y darlun cyffredinol yn eithaf positif. Dengys y tueddiad (gweler y Siart Cylch, Ffigwr 1, isod) fod 57% o'n holl ddangosyddion perfformiad wedi gwella yn 2011/12, 11% heb newid a 30% wedi dirywio.

O ran ein perfformiad mewn cymhariaeth â'r awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, yn 2011/12 roedd 39% o'n dangosyddion perfformiad yn y chwartel uchaf, 40% yn y chwartel canol a 21% yn y chwartel isaf (gweler Ffigwr 2).

Petaech eisiau mwy o wybodaeth ar berfformiad y Cyngor, cliciwch yma

**Ffigwr 1 – Holl ddangosyddion perfformiad Ffigwr 2 – Holl ddangosyddion perfformiad**




Fodd bynnag, yn ddiweddarach mae'r gwasanaethau Plant ac Addysg wedi bod yn destun adroddiadau beirniadol gan reoleiddwyr ac mae Comisiynwyr Llywodraeth Cymru yn parhau i ymwneud â monitro gwelliant y Cyngor mewn llywodraethu corfforaethol. Gwnaed llawer o waith yn wasanaethau Plant, sydd bellach yn dangos gwelliannau sylweddol. Mae cynnydd hefyd yn cael ei wneud ar y materion a nodwyd gan Estyn ar wasanaeth Addysg Ynys Môn. Rhaid i gyllideb 2013/14 roi sicrwydd y gellir cynnal y gwelliant a welwyd yn y misoedd diwethaf.

**ch) Rhagolygon Ariannol**

Roedd llawer yn Natganiad y Canghellor ac adroddiad y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol am ragolygon economaidd y DU (Adroddiad Cynaliadwyedd ariannol - Gorffennaf 2012). Disgwylir i GDP gywasgu gan 0.1% eleni ac wedyn chwyddo'n raddol dros y 5 mlynedd nesaf.

Bydd Cyllideb Llywodraeth Cymru y tu draw i'r cyfnod Adolygiad Gwario cyfredol yn dibynnu ar ganlyniad Adolygiad Gwario'r flwyddyn nesaf.

Y rhagolwg yw am ragor o lymder. I ddileu'r diffyg, mae'r Canghellor wedi dweud bydd toriadau gwirioneddol yng ngwariant y DU ar wasanaethau cyhoeddus yn parhau i mewn i 2017/18. Mae gostyngiadau refeniw, yn cynnwys toriadau pellach i fudd-daliadau lles sydd yn cael eu gwneud gan y Canghellor.

Golyga hyn ei fod yn hynod o annhebygol y bydd cynnydd yn y cyllid gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol rhagweladwy.

Daw hyn â her enfawr i lywodraeth leol ac, yn wir yr holl wasanaethau cyhoeddus, sydd am ei chael yn fwyfwy anodd i gynnal yr holl wasanaethau maent yn eu darparu ar hyn o bryd. Gydag adnoddau'n prinhau, a phwysau ychwanegol gan boblogaeth sy'n heneiddio ac amddifadedd cymdeithasol, bydd angen i sefydliadau ddarparu gwasanaethau gyda phwyslais llawer mwy ar bartneriaethau.

**STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG A CHYNIGION CYLLIDEBOL 2013/14**

Mae hon yn gyllideb eithriadol o anodd sy'n ceisio mynd i'r afael â'r heriau enfawr a achoswyd gan y dirywiad economaidd a'r blynyddoedd lawer o fesuriadau llymder sydd o'n blaenau.

Mae angen i gynlluniau ariannol y Cyngor gefnogi'r blaenoriaethau strategol a'r meysydd gwella corfforaethol. Fodd bynnag, llwm yw'r rhagolwg ar gyfer gwariant cyhoeddus ac, ar gyfer Ynys Môn, mae'r rhagolwg yn dangos bydd angen i'r Cyngor ostwng ei wariant gan £10m dros y 3 blynedd nesaf - ar gyllideb flynyddol o £120m, ychydig dros 8%.

Mae'r swm rydym yn ei dderbyn ar gyfer adeiladu o'r newydd, gwelliannau i adeiladau ac isadeiledd, hefyd yn gostwng yn sylweddol. Bydd hyn yn gwneud ail-ddylunio gwasanaethau yn her sydd hyd yn oed yn fwy. Fodd bynnag, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, mae'r Cyngor yn ceisio ffyrdd i wneud gwelliannau gwirioneddol a chynaliadwy i'r isadeiledd. Drwy'r 'Menter Benthyca Llywodraeth Leol' bu cynnydd oddeutu £1m yn y gwariant ar Briffyrdd yn 2012/13 a bydd hyn yn parhau ar yr un lefel ar gyfer 2013/14 a 2014/15, yn amodol ar gymeradwyaeth.

Fe osodir cyllideb 2013/14 yng nghanol pwysau ychwanegol tymor hir sy'n wynebu'r Cyngor gyda newidiadau demograffeg yn sgil cynnydd yn nifer y bobl hŷn, (rhwng 2010 a 2033, disgwylir i boblogaeth 75+ Ynys Môn mwy na dyblu o 6,833 i 13,774) cymhlethdod cynyddol o ran gofal plant ac oedolion a diwygio lles, tra bod yr angen i amddiffyn gwasanaethau rheng-flaen cymaint ag y gellir yn parhau.

Mewn ymateb, mae'r Pwyllgor Gwaith yn ceisio:-

- amddiffyn y gwasanaethau a ddefnyddir gan y mwyaf bregus;
- osgoi, lle bo'n bosib, ychwanegu at yr anawsterau a wynebir eisoes yn sgil y sefyllfa economaidd.

Mae hyn yn her enfawr, gan mai dim ond cynnydd o 1% a gafwyd yn yr arian a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â gostyngiad yn y cymorth at y Dreth Gyngor.

Dros y blynyddoedd diwethaf, trwy'r cyllid a gafwyd gan y Llywodraeth a'r refeniw'r Dreth Gyngor, bu'r sail refeniw yn Ynys Môn ymysg yr isaf yng Nghymru. Mae'r system o Fudd-daliadau'r Dreth Gyngor yn dod i ben ym Mawrth, gyda'r cynllun Cymorth y Dreth Gyngor yn cymryd ei le, fydd yn darparu uchafswm o 90% o gymorth i'r deiliaid tai tlotaf. Ar yr un pryd, mae cyllideb Llywodraeth Cymru tuag at Cymorth y Dreth Gyngor yn llai na'r hyn mae'r biliau wedi cael eu gostwng. Neilltuwyd £200k ychwanegol i'r pwrpas yma.

Mae'r cynigion cyllidebol yma'n cynrychioli balans rhwng defnyddio mesuriadau unwaith-ac-am-byth i gynorthwyo i gyflawni mewn blwyddyn anodd iawn, a'r angen i wneud arbedion effeithlonrwydd cynaliadwy a gostyngiadau gwirioneddol ar gyfer blynyddoedd y dyfodol.

**Amcanion ariannol y Cyngor yn y tymor canolig yw:-**

- Cefnogi blaenoriaethau strategol y Cyngor a'r meysydd gwella;
- Rhoi sylw i faterion a godwyd drwy ymyrraeth a themâu Llywodraethu Corfforaethol Comisiynwyr Llywodraeth Cymru;
- Rhoi sylw i faterion a godwyd gan Estyn a'r Bwrdd Adfer Addysg;
- Darparu gwasanaethau heb beryglu'r sefyllfa ariannol.

**Rydym yn cydnabod bod:-**

- Ni ellir cwrdd â'r heriau allanol trwy wneud gostyngiadau bychan ar draws y Cyngor;
- Mae angen trawsnewid gwasanaethau'n sylweddol;
- Bydd angen rhesymoli adeiladau i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol;
- Bydd angen rhoi blaenoriaeth i'r rhai mwyaf bregus a bydd hynny'n golygu efallai na fydd rhai gwasanaethau yn parhau yn eu ffurf bresennol.

**Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cynnig strategaeth ariannol tymor canolig sy'n seiliedig ar:-**

- Cyflawni gostyngiadau sylweddol mewn gwariant o £10m dros 3 mlynedd – sy'n cyfateb i 8%;
- Gostwng gwariant mewn symiau cyfartal dros y tair blynedd er mwyn peidio ansefydlogi'r sefyllfa ariannol ac i ledaenu'r risg yn wastad;
- Caniatáu arian i drawsnewid gwasanaethau yn 2013-14, yn enwedig yn y meysydd gofal oedolion, addysg a hamdden, i sicrhau gostyngiadau gwariant sylweddol ym mlynyddoedd y dyfodol;
- Amddiffyn addysg a gofal cymdeithasol, yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru;
- Caniatáu ar gyfer twf, cymhlethdod a newidiadau mewn poblogaeth fel maent yn effeithio cyllidebau;

- Cydnabod yr her enfawr o'r orsaf niwclear newydd arfaethedig, datblygiadau mawr eraill yn ymwneud ag ynni, a'r angen i ddarparu ar gyfer y newidiadau hyn;
- Blaenoriaethu adnoddau cyfalaf prin i gyflawni trawsnewid a rhesymoli asedau a grantiau allanol i sicrhau'r lefelau cyllido uchaf posibl;
- Cydnabod bod angen adnoddau ychwanegol i gefnogi'r newidiadau i ddiwygio lles;
- Cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor yn flynyddol.

Adeiladwyd y rhagdybiaethau yma i mewn i'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn y Tabl isod:-

| | 2012/13 £m | 2013/14 £m | 2014/15 £m | 2015/16 £m |
|---|---|---|---|---|
| Cyllid ar gael: | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 92.3 | 100.2 | 101.0 | 101.0 |
| Y Dreth Gyngor | 26.7 | 27.9 | 29.3 | 30.8 |
| **Cyfanswm** | **119.0** | **128.1** | **130.3** | **131.8** |
| | | | | |
| **Cyllideb y Flwyddyn Flaenorol (wedi'i haddasu)** | **125.4** | **125.6** | **128.1** | **130.3** |
| Chwyddiant a Diogelwch ar gyfer Cyllidebau Ysgolion | 0.5 | 0.8 | 0.5 | 0.5 |
| Cynnydd mewn costau eraill | 1.8 | 1.4 | 2.6 | 2.6 |
| Newidiadau Demograffig | 0.3 | 0.6 | 0.5 | 0.5 |
| Cyllido a Llog Cyfalaf | -0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 |
| Cyllido benthyca digefnogaeth | 0.1 | *0.0* | *0.2* | *0.4* |
| Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd | 0.0 | *-0.4* | *1.2* | *0.4* |
| Buddsoddi mewn newid/diswyddo | 0.0 | *1.5* | *0.0* | *0.0* |
| Cyfraniad i'r balansau | 0.0 | *0.5* | *-0.5* | *0.0* |
| Pwysau a nodwyd | | *1.0* | *isod* | *isod* |
| Twf arall | 1.3 | 0.4 | 0.7 | 1.0 |
| Arbedion y cytunwyd arnynt | | -0.5 | d/b | d/b |
| Bwlch Cyllido | -3.7 | -2.9 | -3.1 | -4.0 |
| **Cyllideb** | **125.6** | **128.1** | **130.3** | **131.8** |

Mae'r tabl yma'n dangos y disgwylir i'r gyllideb gyfan barhau ar lefel debyg am yr ychydig flynyddoedd nesaf, sy'n golygu y bydd raid i ni barhau i ostwng ein gwariant.

Gweler crynodeb o gynigion cyllidebol 2013/14 yn **Atodiad A.**

**ARBEDION EFFEITHLONRWYDD**

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn ymgymryd ag adolygiad trylwyr o bob gwasanaeth i ystyried sut gellir gwneud arbedion effeithlonrwydd ar y lefel angenrheidiol. Golyga hyn:-

- Gymryd golwg feirniadol ar sut y darperir y gwasanaeth;
- Ystyried a oes angen y gwasanaeth ar yr un lefel;
- A oes cyfleoedd i ddarparu'r gwasanaeth yn wahanol;
- Allai sefydliadau eraill gynorthwyo i'w darparu.

Pennir rhaglen o arbedion effeithlonrwydd i gyflawni ein cynllun ariannol tymor canolig ochr yn ochr â Chynllun Corfforaethol newydd ar gyfer y Cyngor newydd wedi'r etholiad ym Mai 2013. Bydd hyn yn destun ymgynghoriad pellach.

**Beth fyddwn yn ei wneud i wella ein gwasanaeth i chi yn ystod 2013/14**

Mae llawer o'r hyn y mae'r Cyngor yn ei ddarparu yn cael ei ragnodi'n genedlaethol ond mae'n bwysig, o fewn yr ystwythder a roddir iddo, fod gwasanaethau'n adlewyrchu amgylchiadau lleol a'r blaenoriaethau ac anghenion cymunedau Ynys Môn. Y rhain yw ein cynigion ar gyfer 2013/14:-

**Addysg**

Cychwynnwyd ar foderneiddio ysgolion ac mae'r Bwrdd Adfer Addysg yn monitro darpariaeth y Cyngor yn erbyn y Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg. Dyrannwyd adnoddau ychwanegol i wella ysgolion a rheolaeth ariannol, a chynhelir adolygiad o'r adeiladau fel rhan o Gynllun Rheoli Asedau'r Cyngor. Diogelwyd cyllidebau'r ysgolion yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, ar 2.08% yn uwch na chyllideb 2012/13.

**Gofal Cymdeithasol Oedolion**

Gan fod pobl yn byw'n hirach ac yn iachach, mae angen cynyddu a newid y math o wasanaethau sydd ar gael i oedolion a'u gofalwyr. Rhydd hyn bwysau cynyddol ar y maes gwariant hwn. Blaenoriaethwyd adnoddau ychwanegol i'r gwasanaeth hwn ar gyfer 2013/14 i gefnogi'r newidiadau sy'n cael eu cyflwyno. Adolygir gwasanaethau, sy'n cynnwys gofal preswyl, a chynllunnir rhagor o adolygiadau gyda phartneriaid i ddarparu'r modelau mwyaf cost-effeithiol ar gyfer gofal sy'n gynaliadwy i'r dyfodol.

**Gwasanaethau Plant**

Mae agweddau o'r gwasanaeth penodol hwn wedi bod yn destun sylw gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ond bellach, gwnaed gwelliannau sylweddol gan yr awdurdod yn erbyn y targedau osodwyd. Er mwyn cynnal y gwelliant hwn ac i ymdopi â phwysau ychwanegol ar y galw am ofal maeth o ansawdd uchel a phlant sy'n derbyn gofal, dyrannwyd adnoddau ychwanegol i gyllideb sail y Gwasanaethau Plant i'r dyfodol.

**Trawsnewid Gwasanaethau**

Dros y blynyddoed i ddod, bydd pob maes gwasanaeth yn cael eu trawsnewid yn sylweddol wrth i ni foderneiddio gwasanaethau. Bydd nifer o feysydd yn mynd trwy raglen drawsnewid yn 2013/14, fel paratoad ar gyfer gwariant llai yn 2014/15 a'r tu draw i hynny. O'r herwydd, mae'r cyllidebau wedi eu diogelu ar lefel ychydig yn is er mwyn rhoi amser digonol i gyflawni gostyngiadau gwirioneddol ac i weithredu newidiadau. Mae'r rhain yn cynnwys hamdden, ysgolion, gofal cymdeithasol oedolion a swyddogaethau corfforaethol. Bydd gwasanaethu swyddfa gefn yn cael eu hail strwythuro a'u hail fodelu yn ystod 2013/14 er mwyn moderneiddio yn llwyr y ffordd rydym yn gweithio ac i wneud y defnydd gorau o asedau'r Cyngor.

**Rhaglen Ynys Ynni**

Cyffrous yw'r dyfodol i'r Ynys, gyda'r orsaf niwclear newydd arfaethedig, ac mae'n cyflwyno cyfleoedd a heriau mawr. Fodd bynnag, mae hefyd yn golygu newid sylweddol yn y modd y darperir gwasanaethau a bydd angen ffurfio partneriaethau newydd i ymateb i'r her. Blaenoriaethwyd adnoddau fel y gellir gwneud y gwaith paratoi pwysig fel buddsoddiad ar gyfer budd cymunedol yn y dyfodol.

**Gostyngiadau yng Ngwasanaethau**

Yn anochel, gyda lefel y gyllideb yn gostwng mor sylweddol flwyddyn ar flwyddyn, bydd angen gostwng lefel darpariaeth rhai agweddau o wasanaethau. Gwneir hyn mewn ffordd ofalus a mesuredig er mwyn lleihau'r risg a'r effaith ar ddinasyddion. Gwnaed asesiadau risg a chymariaethau gyda gwariant ar gyfartaledd ar wasanaethau ar draws Cymru, ac edrychwyd hefyd yn fanylach ar bob gostyngiad posib mewn gwasanaethau. Nid yw'n bosib cyflawni popeth rydym yn ei wneud i'r un lefel ond gyda llai o bres ac o'r herwydd ar ôl diogelu gwasanaethau statudol sydd yn gwasanaethu'r mwyaf bregus cyflwyniar nifer o ostyngiadau posib yn yr Atodiadau manwl sydd ynghlwm wrth y ddogfen hon. Os nad yw'r arbedion i gyd yn dderbyniol, bydd angen arbedion hyfyw a rhesymol yn eu lle er mwyn cyflawni cyllideb gytbwys.

Nid yw'n realistig disgwyl i un gwasanaeth ysgwyddo baich y lleihad gostyngiad yn yr adnoddau, felly rydym wedi cynllunio arbedion ym mhob gwasanaeth, ond wedi sicrhau fod yr effaith wedi ei lleihau i'r graddau y mae hynny'n bosib.

Gwelir mwy o fanylion ynglŷn â'r arbedion cynlluniedig yn **Atodiad B1 a B2.**

## Y DRETH GYNGOR, FFIOEDD A THALIADAU

Bob blwyddyn wrth i ni bennu'r gyllideb rhaid i ni ystyried y symiau y bydd y cyhoedd yn fodlon eu talu, fel rhai sy'n talu'r Dreth Gyngor a hefyd fel rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau ac mae'n rhaid talu amdanynt. Oherwydd effaith y wasgfa gredyd a phrisiau uchel ynni, mae'r Pwyllgor Gwaith yn ymwybodol o'r pwysau ariannol ar aelwydydd.

Oherwydd setliad Llywodraeth Cymru mae'n rhaid i ni gynyddu'r Dreth Gyngor yn 2013/14. Mae gan Ynys Môn sail isel oherwydd diogelu setliadau gwael a refeniw o'r Dreth Gyngor. O ganlyniad i adnoddau sy'n lleihau a phwysau sy'n cynyddu, ac i sicrhau fod y mwyaf bregus yn y gymdeithas yn cael eu diogelu, cynigir cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor, neu 86c yr wythnos ar gyfer eiddo Band D ar gyfartaledd. Cynrychiola 1%, incwm posib o £265k. Gwneir pob ymdrech i gynnal y lefelau casglu uchel, ond mae pwysau anochel oherwydd newidiadau i'r cymorth a roddir o ran y Dreth Gyngor.

Yn ogystal, bydd ffioedd a thaliadau anstatudol yn cynyddu gan 2% yn y rhan fwyaf o achosion.

## DEFNYDDIO ARIAN WRTH GEFN

Mae'r gyllideb ar gyfer 2012/13 yn dangos balansau cyffredinol yn disgyn i £4.9m erbyn diwedd y flwyddyn.

O ganlyniad i'r gorwariant yn y flwyddyn gyfredol, mae'n debygol y byddant yn gostwng ymhellach, i rhwng £4.0m i £4.5m sef swm sy'n is na beth sydd ei angen. Mae'r gyllideb a ragwelir yn cynnwys cyfraniad o £0.5m i adfer y balansau, yn ogystal â throsglwyddiad o gronfeydd wrth gefn clustnodedig o tua £0.1m.

## CYNLLUN CYFALAF 2013/14

Gwariant cyfalaf yw'r arian mae'r Cyngor yn ei fuddsoddi ym meysydd fel adeiladu ac adnewyddu tai, lonydd, pontydd, adeiladau ysgolion a chartrefi gofal, gan gynhyrchu buddiannau dros nifer o flynyddoedd. Gwerir rhywfaint o'r arian yn uniongyrchol ar asedau mewn perchenogaeth y Cyngor, mewn achosion arall fe gymerir ffurf grantiau unai i sefydliadau arall neu unigolion, iddyn nhw gario allan y gwaith.

Daw'r arian i gyllido hyn o gyfuniad o grantiau'r llywodraeth, cyfraniadau o'r gyllideb refeniw, derbyniadau o werthu asedau a benthyciadau a gymerir gan y Cyngor. Mae'r rhain i gyd wedi dioddef o'r un pwysau ar wariant cyhoeddus a'r un cyflwr marchnad ddirwasgedig â holl feysydd arall o weithgaredd y Cyngor, felly mae'r symiau ar gael yn gyfyngedig ac mae rhaid gwneud penderfyniadau gofalus.

Gyda llai o gyfleoedd cyllido grant a chyllido cyfalaf cyffredinol symud ymlaen yn lleihau, ynghyd â lefelau ac amseru ansicr o dderbyniadau cyfalaf y dyfodol, cyfyngedig iawn fydd y cyfleoedd ar gyfer cynlluniau cyfalaf uchwanegol.

Y blaenoriaethau mae'r Pwyllgor Gwaith wedi nodi o fewn y Cynllun Cyfalaf yw i gyflawni'r canlynol:-

- Rhesymoli ysgolion yn y dyfodol yn unol â gofynion y rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif;
- Rhesymoli ac uwchraddio Canolfannau Hamdden;
- Trawsnewid gofal preswyl;
- Darpariaeth o dai fforddiadwy;
- Fforddiadwyaeth a rhesymoli asedau sefydlog;
- Gweithio tuag at finimeiddio costau rhedeg asedau'r Cyngor a'r adolygiad o ba asedau a ddelir a sut maent yn cael eu defnyddio, gan nodi'r rheini all gael eu gwerthu;
- Rhaglenni Datblygu Economaidd ac Adfywio, gan ddefnyddio'n llawn y cyfleoedd cyllido UE;
- Cyfleusterau ar gyfer gostyngiad a thriniaeth tymor hir o wastraff.

**Gweithgaredd Cyfredol**

Yn ddiweddar, cymeradwywyd diweddariadau mawr i'r Cynllun Rheoli Asedau a Strategaeth a Pholisi Adnewyddu Tai y Sector Breifat – gan y Cyngor Sir ar 27 Medi 2012 a gan y Bwrdd Comisiynwr ar 3 Medi 2012.

Yn y flwyddyn ariannol nesa, y prif faes datblygu yw'r rhaglen i adolygu'r asedau a ddelir gan y Cyngor, gyda 'Local Partnerships' yn cael eu hapwyntio i ymgymryd y gwerthuso opsiynau. Tra mae'r gwaith yma'n ffurfio prosiect ynddo'i hyn, mae'n cysylltu'n agos i gyflawni amcanion penodol yn y rhan fwyaf o'r meysydd allweddol, gan gynnwys:-

- Darpariaeth gofal i'r henoed;
- Tai fforddiadwy;
- Rhesymoli canolfannau hamdden;
- Rhesymoli ysgolion.

Ar hyn o bryd mae yna dri phrosiect a gyllidir gan grant Ewropeaidd yn rhedeg. Y rhain yw Tair Tref, Amgylchedd Arfordirol ac Isadeiledd Strategol - Safleoedd ac Eiddo.

Yn ogystal, mae dwy brosiect fawr sy'n derbyn cymorth gan Lywodraeth Cymru wedi cychwyn, sef Cynllun Trosiannol Ysgolion 21ain Ganrif (adleoli Ysgol y Bont) a'r Fenter Benthyca Llywodraeth Leol (LGBI). Rhaglen tair mlynedd, £5.3m yw LGBI o gyflwr asedau a gwelliannau ymarferoldeb i asedau priffyrdd yr Awdurdod. Cychwynnodd y cynllun yma yn 2012/13 ac fe'i bwriedir i wella safon yr asedau am 20 mlynedd, gan leihau costau cynnal a chadw a gwella'r ansawdd i ddefnyddwyr.

Yn ogystal, mae dau gynllun sylweddol a ariennir yn fewnol wedi cychwyn. Y rhain yw'r rhaglen o welliannau i fân-ddaliadau, a gyllideir o'r derbyniadau cyfalaf wedi ei amgau o fân-ddaliadau, a disgwylir ei gwblhau yn 2014/15, ynghyd â'r gweithfeydd gwella ar Safle Mwynderau Dinesig Penhesgyn, sydd hefo cyllideb o £1m, a gyllidir o gronfa a ariennir gan grant, ac a ddisgwylir i'w gwblhau yn hwyr yn 2012/13.

**Edrych ymlaen i 2013/14**

Disgwylir i'r cynllun Band A Ysgolion y 21ain Ganrif ar gyfer ysgol gynradd newydd yng Nghaergybi gychwyn yn 2013/14, gyda chyllideb o £7.9m, gyda 50% ohono yn cael ei gyllido gan grant.

Disgwylir bydd gwaith yn cychwyn ar safle mwynderau dinesig arall, unai yng Ngwalchmai neu Gaergybi.

Yn ogystal, mae cynlluniau i sicrhau bydd cyllideb ychwanegol ar gael ar gyfer adfywio, gan gynnwys buddiannau posib o'r Parth Ewro, Ynys Ynni a'r Rhaglen Môn Menai.

**YMGYNGHORI**

Rydym yn gwahodd sylwadau gan gydranddeiliaid ar yr holl becyn gwelliannau/cyllidebol, ond yn arbennig rydym eisiau eich adborth yng nghyswllt y pwyntiau a ganlyn:-

- Cynnydd yng nghyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn osgoi toriadau mawr yn y lefelau gweithgaredd presennol;
- Cynnal y gyllideb hamdden i ganiatau amser ar gyfer newidiadau yn y ddarpariaeth;
- Blaenoriaethu twf yn y gwasanaethau plant a'r Rhaglen Ynys Ynni – **fel y dangosir hynny yn Atodiad C;**
- Rhagdybiaethau pellach y dylem eu gwneud yn y gwaith cynllunio ariannol ar gyfer y tymor canolig;
- Eich blaenoriaethau i'r Cynllun Cyfalaf;
- Y cynnydd 5% arfaethedig yn y Dreth Gyngor (86c yn wythnos i eiddo Band D ar gyfartaledd) i helpu diogelu gwasanaethau allweddol y Cyngor;
- Unrhyw awgrymiadau arall y bydd gennych efallai ar arbedion effeithlonrwydd neu drawsnewid gwasanaethau i gyflawni'r canlyniadau gorau i drigolion Ynys Môn.

Efallai bod sgôp i ni weithio mewn partneriaeth mewn rhai meysydd i drosglwyddo rheolaeth rhai gwasanaethau (e.e. toiledau cyhoeddus) i sefydliadau partner neu gymunedau lleol. Croesawn eich barn ar gynigion o'r natur yma fel rhan o'r ymgynghoriad.

Bydd raid ymgynghori ynghylch y pecyn gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor, gyda'r Fforwm Ysgolion ar 4 Chwefror 2013, mewn cyfarfod o'r Cynghorau Tref a Chymuned ar 29 Ionawr 2013 a'r gymuned fusnes ehangach.

**SUT I YMATEB**

**Lawrlwytho:**
Mae'r ddogfen hon, ynghyd â'r Gyllideb Refeniw Drafft Gychwynnol a'r atodiadau perthnasol, ar gael o dan yr adran 'Ymgynghoriadau' ar ein gwefan www.ynysmon.gov.uk.

**E-bost:**
ymgynghoriadcyllideb@ynysmon.gov.uk

**Post:**
Ymgynghoriad ar Gyllideb 2013/14
Swyddfa'r Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Bydd yr ymgynghoriad yn gorffen ar **4 ydd Chwefror 2013.**

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Cyflwynir adroddiad ar eich sylwadau i'r Pwyllgor Gwaith ar 18fed Chwefror 2013, a bydd y cynigion terfynol yn cael eu darparu ar gyfer y Cyngor llawn ar 5ed Mawrth 2013.

Petaech eisiau fersiwn print bras, yna ffoniwch 01248 752128 os gwelwch yn dda.

| Crynodeb o'r gyllideb 2013/14 arfaethedig ddrafft | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| - | Sefyllfa ddisymyd ar ôl y setliad dros dro 03 Rhagfyr | Newidiadau Setliad Terfynol | Diwygiad-au Eraill | Bwlch diwygiedig cyn arbedion | Targed Arbedion (gweler Atodiad B) | Twf Arfaethiedig (gweler Atodiad C) | Cyllideb Arfaethiedig |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cyfarwyddiaeth** | | | | | | | |
| Dysgu Gydol Oes (yn cynnwys ysgolion) | 47,485 | | | 47,485 | -250 | | 47,235 |
| Gwasanaethau Cymuned | 31,883 | -85 | | 31,798 | -965 | 84 | 30,917 |
| Datblygu Cynaliadwy | 22,592 | -190 | | 22,402 | -1,486 | 300 | 21,216 |
| Dirprwy Prif Weithredwr | 8,316 | 29 | | 8,345 | -239 | | 8,106 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 2,269 | | -100 | 2,169 | | | 2,169 |
| Cefnogaeth Y Dreth Gyngor - cyfrifoldebau ychwanegol | 4,468 | 157 | 200 | 4,825 | | | 4,825 |
| Ardollau | 3,223 | | | 3,223 | | | 3,223 |
| Ariannu Cyfalaf a llog | 7,185 | | | 7,185 | | | 7,185 |
| Ad-daliadau i'r CRT/SGU | -358 | | | -358 | | | -358 |
| Mentrau Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy (arbedion) | -480 | | | -480 | | | -480 |
| **Cyfanswm** | **126,583** | **-89** | **100** | **126,594** | **-2,940** | **384** | **124,038** |
| Grant Cytundeb Canlyniadau | -545 | | | -545 | | | -545 |
| Arian wrth gefn Gwella | 190 | | | 190 | | | 190 |
| Arian wrth gefn Proses | 500 | | | 500 | | | 500 |
| Arian wrth gefn Cyffredinol | 0 | | | 0 | | | 0 |
| Arian wrth gefn Arfarnu Swyddi | 900 | | -450 | 450 | | | 450 |
| **Is-gyfanswm y gyllideb ddisymud** | **127,628** | **-89** | **-350** | **127,189** | **-2,940** | **384** | **124,633** |
| **O'r Cynllun Tymor Canolig:** | | | | | | | |
| Arian wrth gefn Arfarnu Swyddi ychwanegol | 400 | | -400 | 0 | | | 0 |
| Arian wrth gefn Benthyca di-gefnogaeth ychwanegol | 200 | | -200 | 0 | | | 0 |
| **Pwysau:** | | | | | | | |
| - Plant sy'n derbyn gofal | 600 | | | 600 | | | 600 |
| - Cofrestru awtomatig | 200 | | -200 | 0 | | | 0 |
| - Diwygio lles | 200 | | | 200 | | | 200 |
| - Gwarchod ysgolion | 500 | | | 500 | | | 500 |
| Arian wrth gefn Diswyddo | 1,000 | | | 1,000 | | | 1,000 |
| Arian wrth gefn Cost Newid | 500 | | | 500 | | | 500 |
| Arian wrth gefn Penodol Arall | 0 | 400 | | 400 | | | 400 |
| Cyfraniad o / i Balansau | 0 | | 500 | 500 | | | 500 |
| Cynyddu Targedau Arbedion Gwasanaeth/Gostwng Arian Wrth Gefn/ Gostwng Cyfraniad I Falansau | 0 | | | 0 | -289 | | -289 |
| **Cyfanswm cyn arbedion** | **131,228** | **311** | **-650** | **130,889** | **-3,229** | **384** | **128,044** |
| **Ariennir gan:** | | | | | | | |
| Cyllideb Allanol Cyfun | 99,961 | 266 | | 100,227 | | | 100,227 |
| Y Dreth Gyngor | 27,867 | | | 27,867 | | | 27,867 |
| Rhyddhad ardrethi yn ôl disgresiwn | -50 | | | -50 | | | -50 |
| **Cyfanswm Cyllido** | **127,778** | **266** | **0** | **128,044** | **0** | **0** | **128,044** |
| **Bwlch Cyllido** | **3,450** | **45** | **-650** | **2,845** | **-3,229** | **384** | **0** |

| Crynodeb o Arbedion Fesul Gwasanaeth | Targed Arbedion £'000 | Cynigion Arbedion £'000 |
|---|---|---|
| | | |
| **Dysgu Gydol Oes** | | |
| Gwasanaeth Addysg | | -309 |
| Gwasanaeth Ieuenctid | | -56 |
| **Cyfanswm Dysgu Gydol Oes** | **-250** | **-365** |
| | | |
| **Dirprwy Brif Weithredwr** | | |
| Gwasanaethau Canolog | | -578 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | | -169 |
| **Cyfanswm Dirprwy Brif Weithredwr** | **-239** | **-747** |
| | | |
| **Datblygu Cynaliadwy** | | |
| Cynllunio | | -117 |
| Gwarchod y Cyhoedd | | -130 |
| Gwastraff | | -459 |
| Eiddo | | -239 |
| Priffyrdd a Thrafnidiaeth | | -788 |
| Datblygu Economaidd | | **-86** |
| **Cyfanswm Datblygu Cynaliadwy** | **-1,486** | **-1,819** |
| | | |
| **Cymuned** | | |
| Tai | | -66 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | | -812 |
| Hamdden a Diwyliant | | -168 |
| **Cyfanswm Cymuned** | **-965** | **-1,046** |
| | | |
| **Cyfanswm Arbedion Targed/Cynigion** | **-2,940** | **-3,977** |
| | | |

| Cynigion Arbedion | £'000 |
|---|---|
| | |
| **Dysgu Gydol Oes** | |
| | |
| **Gwasanaeth Addysg** | |
| Dyslecsia | -40 |
| Cynhwysiad (Ymddygiad uwchradd) | -29 |
| Cefnogaeth Ysgol y Bont | -13 |
| Toriadau 10% ar draws yr holl benawdau - Cyflenwadau a Gwasanaethau | -77 |
| Cynnal/GEGYR (isafswm) | -50 |
| Prydau Ysgol (7 mis) | -100 |
| **Cyfanswm** | **-309** |
| | |
| **Gwasanaeth Ieuenctid** | |
| Cyfiawnder Ieuenctid | -4 |
| Wardeiniaid Cymunedol | -12 |
| Clwb Ieuenctid Jesse Hughes (torri oriau staff) | -4 |
| Cau 5 Clwb Ieuenctid | -12 |
| Gostwng Oriau Arweinyddion Bro | -5 |
| Torri gweithgareddau ieuenctid ychwanegol | -8 |
| Torri grant Ffermwyr Ifanc | -1 |
| Trosglwyddo Penmynydd a gwerthu Llansadwrn | -10 |
| **Cyfanswm** | **-56** |
| | |
| **Cyfanswm Dysgu Gydol Oes** | **-365** |
| | |
| **Dirprwy Brif Weithredwr** | |
| | |
| **Gwasanaethau Canolog** | |
| Mwyafswm o 2% o Gyflenwadau a Gwasanaethau. Gweddill yr arbedion i'w gyrraedd trwy dorri staff (oddeutu 15 post) - i bob pwrpas yn dadneud y buddsoddi a'r amddiffyn dros y dwy flynedd diwethaf | -558 |
| Gwasanaeth Polisi - Arbedion corfforaethol ar postio/defnydd o amleni rhagdaledig | -20 |
| **Cyfanswm** | **-578** |
| | |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd** | |
| Gostyngiadau yng nghostau prosesu trafodaethol yn dilyn gweithredu systemau Cyllid ac AD a mentrau arall | -50 |
| Gostyngiadau yng nghyfanswm cost Lwfansau Aelodau (diwedd ymyrraeth/gostyngiad yn nifer yr Aelodau) | -20 |
| Gostyngiad yn ffioedd archwilio yn dilyn gostyngiad yn niferoedd archwiliadau grantiau penodol. | -50 |
| Cyllideb hyfforddiant (corfforaethol) | -10 |
| Cyllideb hyfforddiant (gwasanaethau) | -39 |
| **Cyfanswm** | **-169** |
| | |
| **Cyfanswm Dirprwy Brif Weithredwr** | **-747** |
| | |

| Datblygu Cynaliadwy | |
|---|---|
| | |
| **Cynllunio** | |
| Secondiad staff : Ynys Ynni | -40 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | -10 |
| Ffioedd cyn-ceisiadau | -10 |
| Ffioedd cyffredinol | -3 |
| Gwasanaethau ymgynghori proffesiynol | -10 |
| Cyllideb mannau agored | -5 |
| Prosiect Cydweithredu Rheoli Adeiladu | -14 |
| Ffioedd Grantiau Eiddo a'r Amgylchedd | -25 |
| **Cyfanswm** | **-117** |
| | |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | |
| Ailstrwythuro Staff arfaethedig | -100 |
| Cynyddu ffioedd a chostau dewisol uwch y nenfwd corfforaethol - 2% | -10 |
| Incwm o Ynys Ynni | -5 |
| Newidiadau effeithlonrwydd yng nghyllideb cyflenwadau a gwasanaethau (yn cynnwys contract CIVICA) - | -15 |
| **Cyfanswm** | **-130** |
| | |
| **Gwastraff** | |
| Cau'r holl toiledau cyhoeddus | -228 |
| Cludo gwastraff o Benhesgyn a Gwaredu Gwastraff Gweddilliol | -106 |
| Gwasanaeth Glanhau Strydoedd | -125 |
| **Cyfanswm** | **-459** |
| | |
| **Eiddo** | |
| Gostyngiad yng nghyllideb ymgynghorwyr arbenigol adeiladau | -13 |
| Arbedion effeithlonrwydd drwy leihau costau ac arian wrth gefn | -74 |
| Dileu swydd Docfeistr Doc Pysgod Caergybi | -34 |
| Dileu swyddi gweigion Tîm Gwasanaethau Pensaernïol | -6 |
| Incwm arforol | -2 |
| Ailstrwythuro Tîmau arfaethedig | -110 |
| **Cyfanswm** | **-239** |
| | |
| **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | |
| Tynnu'n ôl a gostyngiadau mawr mewn 7 gwasanaethau bws | -190 |
| Lleihau cyllidebau diogelwch ffyrdd a cynnal a chadw llwybrau a chynyddu ffioedd meysydd parcio | -66 |
| Gostyngiad yn cynnal a chadw isadeiledd priffyrdd | -343 |
| Ailstrwythuro yn arwain at arbedion staff, gostyngiad yng nghyllidebau galwadau allan, a chyflenwadau a gwasanaethau | -169 |
| Cynyddu defnydd o gerbydau'r Cyngor a cerbydau wedi eu llogi yn lle treuliau teithio | -20 |
| **Cyfanswm** | **-788** |
| | |
| **Datblygu Economaidd** | |
| Arbedion Gweinyddol | -41 |
| Gostyngiadau yng nghymorth grant | -33 |
| Marchnata mordeithio | -12 |
| **Cyfanswm** | **-86** |
| | |
| **Cyfanswm Datblygu Cynaliadwy** | **-1,819** |
| | |

| **Cymuned** | |
|---|---|
| | |
| **Tai** | |
| Swyddog Rheoli: Stadau gyda chyfrifoldeb am eiddo Prydlesu Sector Breifat | -25 |
| Cael gwared o llungopiwr a phrinteri a cael offer mwy modern yn eu lle, 'peiriannau-i-gyd-yn-un' sy'n sganio, llungopïo a phrintio, sydd wedi eu rhwydweithio i'r system TG | -5 |
| Adlinio'r gyllideb gyda CRT | -20 |
| Cynorthwydd Clerigol | -16 |
| **Cyfanswm** | **-66** |
| | |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol** | |
| Rheolwr Integreiddiedig SCS wedi ei ariannu ar y cyd | -18 |
| Cydlynydd Gweithgareddau (Gwahardd Cymdeithasol) | -19 |
| Capasiti cadeirio - terfynu defnyddio cadeiryddon sesiynol Cynadleddau Achosion ag Adolygiadau Statudol | -5 |
| Bryn Hwfa - Swydd Rheolwr | -33 |
| Mae Queens Park wedi bod ar gau yn ystod 2010-11 - Diswyddwyd y rhan fwyaf o'r staff yn ystod 2011-12, neu fe'u hadleolwyd | -150 |
| Cytundebau Lefel Gwasanaeth hefo'r Sector Gwirfoddol | -74 |
| Cyllidebau Cefnogi Teuluoedd | -13 |
| Rhesymoli/Trawsnewid Comisiynu Gwasanaethau Oedolion - Cyfeirnod AK/Adolygiad cyffredinol o gyllidebau a chostau'r Uned Ddarparu | -500 |
| **Cyfanswm** | **-812** |
| | |
| **Hamdden a Diwyliant** | |
| Cyfle gwneud incwm : 'Golau ar y Gamlas', Syr Kyffin Williams a Fenis, Arddangosfa 2013 | -48 |
| Rhesymoli trefniadau Glanhau'r llyfrgell | -15 |
| Gostyngiad yng nghronfa'r llyfrau | -5 |
| Gostyngiadau yng nghymorth grant | -7 |
| Gwasanaeth Hamdden - Cynyddiadau ychwanegol yn ffioedd a thaliadau | -48 |
| Gwasanaeth Hamdden - Newidiadau yn oriau staffio a thaliadau uwch i brosiectau a gyllidir gan grant | -15 |
| Gwasanaeth Hamdden - Newidiadau ym mhatrymau gwaith staff | -12 |
| Gwasanaeth Hamdden - Gostyngiad yng nghyllidebau Atgyweiriadau a Cynnal a Chadw | -8 |
| Gwasanaeth Hamdden - Gostyngiad cyffredinol yng nghyllidebau | -10 |
| **Cyfanswm** | **-168** |
| | |
| **Cyfanswm Cymuned** | **-1,046** |
| | |
| **Cyfanswm Cynigion Arbedion** | **-3,977** |
| **Cyfanswm Targed Arbedion** | **-2,940** |
| | |

| Crynodeb o Dwf Arfaethiedig | £'000 |
|---|---|
| | |
| **Datblygu Cynaliadwy** | |
| **Gwasanaeth Datblygu Economaidd** | |
| Buddsoddiad a chyfraniad CSYM i'r Rhaglen Ynys Ynni | 300 |
| | |
| **Cymuned** | |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol** | |
| Cynrychiolaeth Panel Mabwysiadu a Maethu | 28 |
| Wedi eu remandio dan orchymyn y Llys | 28 |
| Gwaith Trosiannol | 28 |
| | |
| **Cyfanswm** | **384** |
| | |